# Cofnodion Cyfarfod Fforwm Mynediad Lleol De Eryri a gynhaliwyd ddydd Mawrth 15 Mehefin 2021 am 6.30yh
# Cyfarfod Zoom Ar-lein

| | | |
|---|---|---|
| **Presennol – Aelodau:** | Mr Hedd Pugh (Cadeirydd) | Mr Alun Edwards |
| | Cyng John Pugh Roberts | Mr David Coleman |
| | Mr Delwyn Evan | Mr Emlyn Roberts (rhannol) |
| | Mrs Leslie Amison | Mr Andy Hall |
| | Mr Geraint Rowlands | Eryl Jones Williams |
| | Mrs Gaynor Davies (rhannol) | Mr Alun Williams (rhannol) |
| **Swyddogion / Arsylwyr:** | Peter Rutherford (APCE) | Oliver Wicks (Ramblers Cymru) |
| | Gwynn Lloyd Evans (CG) | Rhian Williams (PCE) |
| | Arfon Hughes Cwmni Nod Glas | Rob Lewis (rhan PCE) |
| | David P Jones (PCE) | |

*Croesawodd HP fel Cadeirydd bawb i'r cyfarfod heno - a diolchodd i'r cyfieithwyr ymlaen llaw.*

Dywedodd PR pe bai unrhyw un yn cael anawsterau gyda'r cyfleusterau cyfieithu, yna a fyddent yn dweud wrtho yn hytrach na goddef trafferthion - er mwyn iddynt allu mynd i'r afael ag unrhyw faterion yn gynnar.

**1. Ymddiheuriadau**

Ashley Charlwood & Alun Wyn Evans.

**2. Datgan Budd**

**Dim**

**3. Ethol Is-gadeirydd**

Gofynnodd PR, o ystyried bod cyn lleied o'r aelodau newydd yn adnabod ei gilydd ac, o ganlyniad, fod ethol Is-gadeirydd yn anodd yna efallai y byddai'n ddoeth gan bod y Cadeirydd presennol o blith y tirfeddianwyr, yna teg fyddai gofyn am Is-gadeirydd o blith aelodau'r grŵp defnyddwyr.

Gofynnodd a fyddai'r aelodau'n caniatáu i'r Is-gadeirydd blaenorol Andy Hall eistedd fel Is-gadeirydd am y 12 mis canlynol hyd nes y gallent gynnal cyfarfod priodol o amgylch y bwrdd i ailedrych ar hyn.

**Cytunwyd**

**4. Cofnodion Blaenorol**

Cytunwyd gydag eglurder ar atebolrwydd Hawliau Tramwy.

## 5. Materion yn Codi

**i)** *Soniodd ER mai er eglurder yn y cofnodion diwethaf – cododd y cwestiwn ynghylch atebolrwydd y tirfeddiannwr am bobl sy'n defnyddio Hawliau Tramwy gan gynnwys ffyrdd ar eu tir oedd yr hyn yr oedd o wedi'i ofyn.*

*Yr oedd yn ceisio rhywfaint o eglurder ynghylch hyn. Roedd PR wedi nodi yn y cyfarfod diwethaf nad oedd tirfeddianwyr yn gyfrifol am bobl yn defnyddio Ffyrdd Ddiddosbarth (UCR).*

*Ailadroddodd HP ei fod yn credu mai'r cwestiwn oedd – pe bai pobl yn defnyddio HTC neu ffyrdd yna pwy oedd yn gyfrifol, ac roedd PR wedi ateb nad oeddent yn atebol.*

Eglurodd PR fod angen bod yn ofalus yn y dehongliad hwnnw gan fod gan dirfeddianwyr ddyletswydd gofal o hyd o dan Atebolrwydd Meddianwyr – h.y. dylid ymdrin ag unrhyw beth y gwyddys ei fod yn berygl i'r cyhoedd er mwyn lliniaru yn ei erbyn. Ond mae unrhyw UCR yn briffordd yn yr un modd ag unrhyw ffordd yn syml nid oes arwyneb arnynt, felly mae rheolau arferol y ffordd yn berthnasol.

Cytunodd GLE ac ychwanegodd y dylid cofio mai'r tirfeddiannwr oedd yn gyfrifol am ddodrefn Hawliau Tramwy hefyd.

*Dywedodd HP pe bai pobl ar dir preifat , hyd yn oed ar HTC, yna pwy oedd yn gyfrifol am eu gweithgareddau.*

*Cadarnhaodd ER mai dyma oedd ei gwestiwn. Siawns na ellir dal tirfeddianwyr yn gyfrifol am bawb sy'n defnyddio HTC neu ffyrdd o fewn eu tir.*

*Dywedodd AE ei bod yn bosibl i rywun gyflawni gweithredoedd anghyfreithlon drwy ddefnyddio HTC neu drac cyfreithiol gyda thirfeddianwyr ac yna'n wynebu'r cosbau.*

Dywedodd PR y byddai digwyddiad o'r fath yn dod o dan ddeddfwriaeth arall fel y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad neu hyd yn oed gyfraith droseddol arall. Roedd y ddeddfwriaeth Priffyrdd wedi'i hanelu'n bennaf at hawliau cyhoeddus ar HTC.

*Soniodd GD am fod defnyddwyr UCR lleol yn tynnu cerrig allan o'r wal i'w galluogi i basio darnau mwdlyd - gofynnodd pwy oedd yn gyfrifol am hyn.*

Dywedodd GLJ fod unrhyw Ffyrdd Di-ddosbarth (UCR) yn dod o dan awdurdodaeth Priffyrdd ac nid Hawliau Tramwy a dylid cyfeirio unrhyw faterion atynt hwy. Cynigiodd anfon y manylion hynny at y swyddog perthnasol yn yr adran Briffyrdd pe bai hyn yn helpu ar gyfer y sefyllfa benodol hon.

*Awgrymodd EJW ein bod yn gofyn am eglurhad pellach ar hyn o bosibl gan swyddog cyfreithiol, wedyn byddai popeth yn glir.*

*Eglurodd HP mai'r hyn oedd ei angen oedd canfod pwy oedd yn gyfrifol pe bai difrod i'r tir hwnnw.*

Byddai PR yn ymchwilio i hynny, ond y cwestiwn gwreiddiol yw a yw tirfeddianwyr yn gyfrifol am ddifrod i dir a achosir gan gerbydau. Roedd yr ail gwestiwn yn ymwneud yn gyffredinol â dyletswyddau cyfreithiol y tirfeddianwyr sy'n ymwneud â HTC. Byddai'n ceisio rhoi eglurder i'r rhain.

*Cadarnhaodd ER ei fod yn gofyn a oedd tirfeddianwyr yn gyfrifol am weithgareddau gan eraill ar eu tir naill ai HTC neu UCR.*

Byddai PR yn ceisio canfod ymateb addas i hyn, ond byddai'n rhaid iddo ofyn am gyngor gan arbenigwyr yn y maes hwn.

ii) *t5 Gofynnodd GD a oedd Network Rail wedi cysylltu ag unrhyw un o'r tirfeddianwyr ynglŷn â'r llwybr arfaethedig o Lwyngwril i Donfannau. Ac a fyddai hyn o fewn cwrtil NR.*

Nid oedd PR wedi clywed dim, ond menter Llwybr Arfordir Cymru Gyfan oedd hon dan arweiniad CG, a byddai unrhyw drafodaethau'n cael eu cynnal gan eu tîm arfordirol. Byddai'n holi'r swyddog dan sylw ond gwyddai fod hyn yn dal i gael ei ystyried.

## 6. Gohebiaeth

## 7.1 Eitem ychwanegol ar yr agenda

### Cwmni Nod Glas

*Cyflwynodd HP Mr Arfon Hughes*

Diolchodd AH i'r aelodau am y cyfle i egluro beth oedd pwrpas y cynllun a rôl Cwmni Nod Glas (CNG).

Menter gymunedol oedd hon wedi'i lleoli yn ardal Dinas Mawddwy gyda chylch gwaith i wella'r economi leol, creu cyfleoedd busnes a gwella'r amgylchedd lleol. Roeddent wedi llwyddo i dderbyn arian grant gan Raglen Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru, sef cyllid yn seiliedig ar yr UE.

Dau grant oedd hwn – un hyd at £130k a'r llall yn £70k. Un o'r prosiectau oedd ceisio gwella'r ddarpariaeth mynediad drwy greu detholiad o lwybrau wedi'u hyrwyddo ym mhentref Dinas Mawddwy ac o amgylch gan ddefnyddio'r Hawliau Tramwy Cyhoeddus presennol.

Nid oedd y cynllun hwn yn caniatáu ar gyfer ariannu person llawn amser, felly roeddent wedi bod yn ddibynnol ar lawer iawn o gymorth ac arbenigedd gan randdeiliaid amrywiol megis y Parc Cenedlaethol, Cyngor Gwynedd, mentrau lleol, a gwirfoddolwyr i gyflawni hyn.

Esboniodd fod llawer iawn o gefnogaeth leol wedi bod gan y gymuned, grwpiau defnyddwyr, a'r rhan fwyaf o dirfeddianwyr gan eu bod yn gweld manteision economaidd ac iechyd a lles y math hwn o brosiect yn y dyfodol lle gallai ymwelwyr a'r gymuned leol elwa o gael gwell rhwydwaith o fewn pellter cerdded i'r pentref.

Roeddent bellach yn gweithio gyda Chynllun Rheoli Cynaliadwy (SMS) yn yr ardal i gyflawni pethau tebyg yn yr ucheldiroedd. Rheolir hyn drwy bartneriaeth sy'n cynnwys y Parc Cenedlaethol, Cyngor Gwynedd, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Roedd y cyllid grant hwn yn gofyn am rywfaint o arian cyfatebol gwerth 20%. Roeddent wedi llwyddo i wneud hyn o wahanol ffynonellau ariannu eraill. Roedd angen cyllid ychwanegol yn yr achos hwn i benodi Cydgysylltydd i weithio gyda thirfeddianwyr a rhanddeiliaid.

Un o'r llwybrau mwyaf buddiol a gynhwyswyd oedd y gylchdaith gan ddefnyddio pont newydd Dolybont a oedd â ramp ar gyfer pobl o 'bob gallu'.

Esboniodd ymhellach fod CNG hefyd yn berchen ar siop a fflatiau yn y pentref ac wedi caffael coetir lleol yn ddiweddar a fyddai er budd y gymuned.

Maent hefyd yn chwilio'n gyson am arian ychwanegol i wella eu gweithgareddau yn yr ardal ond yn gobeithio y byddai'r rhan fwyaf o'r gwaith o'r cronfeydd grant hyn yn cael ei gwblhau erbyn 2023.

Gofynnodd PR faint o'r llwybrau oedd bellach wedi'u cwblhau o'r set map wreiddiol o 7.

Er bod peth gwaith wedi'i gwblhau'n rhannol, dywedodd AH eu bod yn dal i weithio ar rannau eraill. Cadarnhaodd mai'r rhain oedd y set o lwybrau y cytunwyd arnynt yn wreiddiol. Y meddylfryd y tu ôl i gael cyfanswm o 7 oedd y gallai pobl gerdded pob llwybr dros wythnos lawn.

*Dywedodd JPR fod cydweithredu rhwng CNG a'r cynllun SMS sy'n edrych ar reoli carbon a mynediad a bod y ddau gynllun yn cydweithio ar lwybrau penodol i osgoi dyblygu, ond mae'r CNG a'r SMS yn endidau ar wahân.*

Gofynnodd PR a oeddent wedi gweld newid yn y defnydd o Hawliau Tramwy Cyhoeddus lleol yn yr ardal oherwydd Covid.

Dywedodd AH nad oedd unrhyw dystiolaeth gadarn ar gyfer hyn ond o'i sylwadau bu cynnydd pendant yn y defnydd a wnaed gan drigolion lleol yn yr ardal gyfagos. Felly, po fwyaf o welliannau a wneir yna po fwyaf fydd y cyfleoedd yn y dyfodol.

*Gofynnodd DE a oedd hyn yn cynnwys llwybr pob gallu a fu'n destun trafodaeth ddiweddar yn Ninas Mawddwy.*

*Atebodd JPR mai'r llwybr dan sylw oedd mynediad Pont Dolybont ac roedd cwestiwn a oedd angen giât. Roedd y rhan fwyaf o bobl wedi nodi y gallai giât fod yn ddiangen. Fodd bynnag, efallai y byddai'n syniad trefnu ymweliad safle ar gyfer aelodau'r FfMLl ar y cyfle nesaf i weld hyn drostynt eu hunain.*

*Gofynnodd DE a allem gyfarfod ar y safle i asesu'r llwybr ffordd hwn.*

*Cefnogodd JPR y syniad hwn o gael ymweliad safle i gael rhywfaint o farn gan yr aelodau.*

*Dywedodd EJW ei bod yn amlwg bod dau farn ar y mater hwn a gofynnodd beth fyddai safbwynt y Parc Cenedlaethol ar gatiau.*

Er ei bod bob amser yn well peidio a chael gatiau neu fynd am yr 'opsiwn lleiaf cyfyngol' mewn llawer o leoliadau yn y PC, dywedodd PR nadoedd yn bosibl rheoli tir (fel arfer ar gyfer rheoli stoc) neu'n ffiniau neu lle nad oedd y dirwedd yn caniatáu gât. Roedd gan bob safle ofynion a nodweddion gwahanol. Beth bynnag a roddir ar unrhyw HTC ni ddylai rwystro hawl y cyhoedd i'w ddefnyddio.

Gofynnodd i HP pa stoc oedd yn pori'r darn hwnnw o'r comin.

*Dywedodd HP fod gan borwyr stoc weithiau ar y tir comin wrth ymyl y ramp lle'r oedd giât ar un ochr i'r bont yn flaenorol yn atal stoc rhag cael mynediad at y bont. Mewn cyfarfod o'r Cyngor Cymuned, gwnaed addewid i ystyried a ellid cynnwys giât yn y dyluniad ramp newydd.*

Awgrymodd PR ymweliad safle os oes angen ynghyd â DE, HP, JPR, GLE, neu unrhyw bartïon eraill â diddordeb.

Byddai'n ceisio trefnu hyn.

Cytunwyd.

*Diolchodd HP i AH am ei gyflwyniad a'i ddiweddariad ar y prosiectau hyn.*

## 7. Diweddariad Ffordd Cambrian – Oliver Wicks

Diolchodd OW i'r aelodau am y cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ddatblygiadau'r llwybr.

Esboniodd fod rhan fawr o'i waith fel Swyddogion Mannau Cerdded gyda Ramblers Cymru yn cynnwys gweithio gyda grwpiau cymunedol a gwirfoddol amrywiol ledled Cymru a oedd am gynorthwyo RC gyda gwaith ar rwydwaith HTC. Yr elfen arall i'w rôl oedd fel Swyddog Ffordd Cambrian Ramblers Cymru.

Rhoddodd drosolwg a ddangosodd y llwybr cyfan yn rhedeg o gastell Caerdydd i gastell Conwy ac mae'n 298 milltir o hyd ac yn mynd drwy Barciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Eryri. Pwysleisiodd nad llwybr i'r cerddwr achlysurol oedd hwn gan ei fod yn llwybr anodd, hir, ac aml yn fynyddig a fyddai ddim ond yn apelio at gerddwyr pellter hir. O fewn Eryri, ymunir ym Machlwyd ac yna y rhan fwyaf o gopaon yr ucheldir yr holl ffordd i Ddyffryn Conwy.

Yn bennaf yn ne'r PC rhedai'r llwybr o Fallwyd drwy Ddinas Mawddwy- Cadair Idris, Abermaw y Rhinogydd, Maentwrog, y Moelwynion ac ymlaen i'r gogledd.

Esboniodd mai'r llwybr a grëwyd yn wreiddiol gan Tony Drake yn y 1960au a'r pwynt

pwysig oedd bod hyn mewn cyfnod cyn CGaHT. A lle'r oedd llawer o'r llwybr ddim ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar fynediad *de facto*[1] yn unig. Yn anffodus, roedd wedi marw yn 2012 ond roedd wedi gadael rhywfaint o arian etifeddiaeth ac roedd nifer o bobl wedi parhau â'r gwaith. Yn 2015 ffurfiwyd Ymddiriedolaeth Ffordd Cambrian, a dyma pryd y daeth Ramblers Cymru yn rhan o'r gweithgor.

Roedd y grŵp o'r farn bod angen adolygu'r llwybr a'r canllaw gwreiddiol (a gyhoeddwyd gyntaf ym 1984) ac o ganlyniad i hynny y gwelwyd y prosiect i adolygu rhywfaint o'r llwybr a chynhyrchu canllaw newydd a gynhyrchwyd yn broffesiynol.

Roedd y broses yn cynnwys llawer iawn o ymgynghori a thrafod gyda nifer o awdurdodau lleol, Cynghorau Cymuned, y Parciau Cenedlaethol, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, CNC a thirfeddianwyr.

Ar ôl cwblhau'r canllaw newydd lansiwyd y canllaw newydd yn 2019[2] a chynhaliodd Ramblers Cymru gyfres o deithiau tywys i ddathlu hyn gyda rhywfaint o sylw cenedlaethol yn y cyfryngau.

Cadwyd yr arwyddion i'r nifer lleiaf posibl, ac mae hyn yn agwedd yr oedd y sefydliadau amrywiol wedi'i chodi, a chytunwyd ar y lleoliadau hynny gydag arwyddbyst wedi'u cwblhau ychydig cyn dyfodiad Covid.

Y cam nesaf ac uchelgais yr Ymddiriedolaeth yw cael y llwybr ar fapiau'r AO. Ar hyn o bryd roeddent yn trafod hyn gyda'r awdurdodau lleol a'r Parciau Cenedlaethol i gael rhywfaint o gefnogaeth i hyn.

Roeddent yn ymwybodol o'r ffaith bod unrhyw hyrwyddo yn cyfleu'r negeseuon cywir yn enwedig am ba mor anodd ydyw ac roedd hyn yn cael ei adlewyrchu yn eu holl ddeunydd hyrwyddo neu wybodaeth ar gyfer y cyfryngau.

Pwysleisiodd mai ychydig iawn o arwyddbyst sydd ar gyfer y llwybr a'i fod ond wedi'i osod mewn lleoliadau strategol y cytunwyd arnynt gyda 9 awdurdod lleol a 2 Barc Cenedlaethol a thirfeddianwyr mawr fel CNC a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar ei hyd. Cwblhawyd hyn ym mis Mawrth 2020 gan ddefnyddio grŵp mawr o Ramblers Cymru a gwirfoddolwyr CWT yn aml ar y cyd â staff awdurdodau lleol.

Roedd Ramblers Cymru, Ymddiriedolaeth CW, Parciau Cenedlaethol ac awdurdodau lleol yn awyddus i'r llwybr fod yn gynaliadwy yn y tymor hir, ac roeddent yn datblygu sylfaen wirfoddolwyr ar draws pob adran yng Nghymru.

Roedd ail-lansio'r arweinlyfr / canllaw hefyd wedi bod yn dasg aruthrol a oedd yn cynnwys llawer o bobl i wirio'r rhannau o'r llwybr yn fanwl. Cafodd hyn rywfaint o gyhoeddusrwydd gan gynnwys darllediadau ar y teledu a radio mewn mannau ar hyd y llwybr yn agos at gymunedau lleol a gall rhai ddewis manteisio ar hyn yn enwedig o ran llety neu gyflenwadau. Mae rhai awdurdodau wedi gofyn am arwyddbyst ychwanegol

[1] Mae mynediad de facto yn disgrifio mynediad sydd eisoes yn bodoli er nad yw'n cael ei gydnabod yn ôl y gyfraith.

[22] *The Cambrian Way* – Arweinlyfr / canllaw wedi'i gyhoeddi gan Cicerone 2019

gyda negeseuon allweddol sy'n dangos cymeriad y llwybrau ac i gynnwys negeseuon diogelwch.

Y cam nesaf fydd cyflwyno cais i'r Arolwg Ordnans (AO) i roi'r llwybr hwn ar eu mapiau fel llwybr strategol sy'n rhedeg o'r gogledd i'r de. Mae Th yn dal i gael ei drafod gydag awdurdodau lleol a'r Parciau Cenedlaethol a'r arwyddion yw'r rhai mwyaf cefnogol.

Diolchodd PR i OW am y wybodaeth ddiweddaraf hon am y prosiect ac roedd yn falch o glywed bod y cwestiwn ynghylch ei gynaliadwyedd a'i hirhoedledd yn cael sylw. Gofynnodd i ba raddau yr oedd y drafodaeth wedi mynd gyda'r AO.

Dywedodd OW fod y rhain yn dal i barhau.

*Gofynnodd DE a oeddent wedi ymgynghori ag Anableddau Cymru neu unrhyw un o'r grwpiau mynediad. Roedd yn amlwg bod llawer o gamfeydd a giatiau 'mochyn' i'w negodi. Gall rhai rhannau fod yn anodd i bobl llai abl.*

Atebodd OW nad oeddent wedi trafod y llwybr yn benodol gyda'r grwpiau hynny o ystyried nodweddion y llwybr ffordd a oedd i raddau helaeth yn llwybr mynyddig ucheldirol a oedd yn anodd. O ran dodrefn, cawsant eu harwain yn fawr gan awdurdodau lleol ar yr agwedd hon. Byddent bob amser yn ystyried sicrhau bod unrhyw lwybr ar gael yn ehangach a byddent yn edrych ar hyn os oes cyfleoedd amlwg lle'r oedd hyn yn bosibl.

*Dywedodd EJW y dylai'r RC fod yn ofalus o ran defnyddio gwirfoddolwyr yn y tymor hir gan ei bod yn anos ar ôl Covid i ailsefydlu grwpiau.*

Roedd OW yn gwerthfawrogi'r sylw hwn ac roeddent yn ymwybodol iawn o anawsterau recriwtio gwirfoddolwyr yn y tymor hir, a bydd hyn yn flaenoriaeth iddynt.

*Dywedodd AE fod ganddo rai llwybrau yn rhedeg drwy ei dir gan gynnwys y Macmillan Way a Thaith Mary Jones. Gofynnodd ai'r dyfodol oedd 'mapio digidol' yn hytrach na'r ffordd hen ffasiwn o farcio'r ffordd gyda'r arwyddbyst ar lawr gwlad er mwyn osgoi llu o arwyddion.*

Dywedodd GLE fod AE yn gywir gan fod llawer o lwybrau wedi'u cyfeirbwyntio ar draws yr ardal ac weithiau mae'n ymddangos fel petai'n gystadleuol braidd i gael llwybrau ar fap yr AO. Fodd bynnag, mater i dirfeddianwyr yw rhoi caniatâd ar gyfer arwyddbyst ychwanegol.

Atebodd OW eu bod yn ymwybodol o'r mater hwn ac wedi trafod eu harwyddbyst gyda'r awdurdodau perthnasol a RC a CWT wedi cytuno o'r dechrau gyda'r athroniaeth o gadw nifer yr arwyddion i gyn lleied â phosib.

Soniodd PR na ddylent fod yn wangalon ynghylch gwirfoddolwyr. Roedd nifer o wirfoddolwyr wedi dod ymlaen yn dilyn Covid i gynorthwyo cynllun Croeso Nôl a Caru Eryri y Parc Cenedlaethol drwy Gymdeithas Eryri ac roedd yn braf gan fod pobl yn amlwg eisiau helpu. Roedd hyn hefyd yn dda ar gyfer eu lles corfforol a meddyliol eu hunain.

Mewn perthynas â chwestiwn DE ar ddarpariaeth i'r anabl ar CW. Roedd CW yn llwybr hynod o arw a mynyddig ac roedd yn her i gerddwyr,  ond roedd yn siŵr, os oedd unrhyw botensial i wella rhai dodrefn o rannau byrion, y gellid edrych arnynt.

O ran y llwybr sy'n cael ei fabwysiadu gan yr AO – dim ond ychydig dros y blynyddoedd yr oedd y PC wedi'i gefnogi, yn bennaf, llwybr y Pererinion, Llwybr Arfordir Cymru Gyfan, Ffordd Draws Prydain ac yn ddiweddar y Llwybr Llechi.

Esboniodd nad oedd y CW erioed wedi cael ei hyrwyddo  na'i gefnogi'n ffurfiol gan y PC yn y gorffennol gan fod y llwybr ymhell cyn CGaHT  a mynediad agored ac wedi rhedeg dros yr hyn a oedd bryd hynny'n dir preifat mewn sawl rhan o'r gwaith – er bod llawer o rannau'n defnyddio HTC. Fodd bynnag, erbyn heddiw o gofio ei fod bellach ar gael yn gyfreithiol a chyda'r cafeatau y maent wedi'u trafod (ychydig iawn o arwyddbyst / gyfeirbwyntiau,  diwygiadau i'r canllaw a rhywfaint o negeseuon am ddiogelwch)  yna byddent yn cefnogi hyn ac yn darparu dolen drwy eu gwefan.

*Gofynnodd HP am unrhyw sylwadau mewn perthynas â mater yr AO.*

*Dywedodd JPR na fyddai ganddo unrhyw broblemau gyda hyn ar fap yr AO gan fod llawer o ddefnyddwyr a stopiodd mewn gwahanol gymunedau ar hyd y llwybr  (gan gynnwys Dinas Mawddwy), ac roedd hyn yn dda i'r economi wledig.*

*Ychwanegodd GD ei bod wedi dod ar draws y CW ei hun a chydnabod bod hwn yn llwybr heriol ac na fyddai ganddi unrhyw wrthwynebiad i weld hyn ar lwybr yr AO.*

*Dywedodd ALl fod rhai rhannau wedi'u hymgorffori yn eu gŵyl Cerdded Abermaw, ond ei bod yn  llwybr Cymreig pwysig. Cydnabu ei fod yn ymgymeriad gwirioneddol, ond dylid ei gynnwys ar fap yr  AO.*

*Roedd AH o'r farn y gallai fod perygl o gael gormod o lwybrau ac efallai y byddai'n anos i'r AO roi hyn ar y map.*

*Ychwanegodd DC fod hwn yn wir yn llwybr ar gyfer 'connoisseurs mynydda' ac mae'n adnabyddus fel  lle anodd i'w daclo, ond meddyliai pe bai'n ymddangos ar fap yr AO yna gallai hynny annog pobl eraill llai medrus i'w ddefnyddio gan arwain at anawsterau.*

*Dywedodd GR ei fod, fel llwybr strategol bwysig sy'n cysylltu'r gogledd â'r de, credai fod hyn yn deilwng o'i gael yn y map AO. Er bod yn rhaid ei wneud yn glir drwy gydol y broses mai ar gyfer cerddwyr arbenigol yn unig y mae.*

*Ychwanegodd AE mai'r cerddwyr profiadol iawn oedd yn defnyddio mapiau yn ei brofiad o fel arfer. O ran y CW roedd gan y PC system raddio a gallai hynny fod yn berthnasol pe ystyrrir unrhyw ddolen at wefan CW .*

*Dywedodd ER y dylai unrhyw un sy'n mynd allan i gefn gwlad wneud eu hymchwil ymlaen llaw bob amser. Roedd yn anarferol cael llwybr o'r gogledd i'r de gan fod y rhan fwyaf yn rhedeg o'r dwyrain i'r gorllewin ac roedd yn credu y dylid cefnogi hyn.*

*Ychwanegodd DE nad oedd pob person anabl yn gaeth i gadeiriau olwyn ac roedd llawer yn anturus iawn ac roedd y rhain yn cynnwys rhannau o'r CW.*

*Dywedodd HP fod y rhan fwyaf o bobl yn gefnogol i'r llwybr sy'n mynd ar fap yr AO ond yn gwerthfawrogi'r arsylwadau a'r sylwadau eraill.*

Dywedodd PR fod y negeseuon diogelwch mynydd a chymeriad y llwybr wedi bod yn destun eu trafodaethau gyda'r Comisiwn Rhanbarthol ynghyd ag awdurdodau eraill ac roedd yn hyderus bod y materion hyn wedi cael sylw.

*Diolchodd HP i OW am ei gyflwyniad a'i ddiweddariad ar y prosiect diddorol hwn.*

**8. Strategaeth hamdden ddrafft – Peter Rutherford**

Esboniodd PR ei fod wedi dechrau ysgrifennu hyn tua 12 mis yn ôl ond am resymau amlwg roedd hyn wedi'i ohirio. Er mai adolygiad a diweddariad o'r ddogfen flaenorol a ysgrifennwyd gan hen Uned Bolisi'r PC oedd hyn i ddechrau, teimlwyd bod angen ei ailwampio'n llwyr ac i gwmpasu tueddiadau a gweithgareddau newydd o fewn y PC gan gynnwys y rhai yr effeithiwyd arnynt gan Covid 19.

Rhaid i'r ddogfen ddiweddaraf hon fod ynghlwm yn uniongyrchol â chanlyniadau a chamau gweithredu'r Cynllun Rheoli, ond roedd y **datganiadau gweithgaredd** yn unigryw gan fod y PC wedi nodi ei safbwynt ar wahanol weithgareddau sydd wedi'u rhannu yn hytrach na dim ond defnyddio terminoleg generig fel arfer oedd 'beicio' - lle gallai hyn mewn gwirionedd feicio mynydd, beicio ar y ffyrdd, beicio teuluol a / neu E feiciau.

Roedd wedi rhoi hyn gerbron y Tîm Rheoli heddiw ac o bosibl eu bod am symud ychydig o bethau o gwmpas felly nid oedd hyn ar gael yn ffurfiol eto, ond credai ei bod yn ddefnyddiol dangos ei gynnwys a'i gynllun sylfaenol heddiw. Pwysleisiodd y byddai'n gwahodd sylwadau gan aelodau'r FfMLl a hefyd gan ein rhanddeiliaid ehangach bryd hynny pan fyddai ar gael.

Yn ystod y misoedd diwethaf roedd wedi cynnal rhywfaint o ddeialog â chynrychiolwyr penodol o'r sector a oedd wedi cyfrannu at bob un yn eu meysydd arbenigedd ac roedd hyn wedi bod yn fwyaf defnyddiol.

Byddai'n ddiolchgar iawn pe gallai aelodau ychwanegu eu sylwadau / harsylwadau a'u hanfon ato.

*Soniodd HP am weithgareddau eraill ac awgrymodd y gallai fod angen gwahanu 'Gwersylla Gwyllt'.*

Dangosodd PR rai sleidiau o'r hyn a oedd wedi bod yn digwydd ar ôl Covid yn y PC megis taflu sbwriel a gwersylla anghyfreithlon. Mae hyn yn parhau i fod yn anodd ac ar ôl y cyfyngiadau symud mae'r PC wedi gweld nifer digynsail o ymwelwyr ar draws yr ardal, ac mae hyn wedi rhoi aelodau staff dan straen sylweddol. Gwaethygwyd hyn gan fewnlifiad o ymwelwyr ychwanegol nad oeddent fel arfer yn dod i'r PC ac efallai nad oeddent yn deall cefn gwlad neu'n ymwybodol o'r Cod Cefn Gwlad.

Er ei bod yn braf bod cynifer o bobl wedi dod yn ôl i'r PC, ac un o brif ddibenion y PC ydi annog pobl i gefn gwlad, yn anffodus, mae hefyd wedi denu'r rhai nad ydynt yn parchu'r

hyn sydd gennym.  Ein her dros y ddwy flynedd nesaf fydd mynd i'r afael â'r materion hyn neu eu lliniaru hyn orau y gallwn.

Mae'r PC wedi bod yn gweithio'n agos gyda llawer o bartneriaid gan gynnwys awdurdodau lleol a sefydliadau eraill. Mae hyn yn cynnwys  defnyddio gwirfoddolwyr ar gyfer ein rhaglen Gwirfoddoli Caru Eryri a gynhelir ar y cyd â Chymdeithas Eryri a fu'n llwyddiant mawr ac y mae'r PC yn ddiolchgar i'r Gymdeithas am gynorthwyo. Mae hyn yn cynnwys siarad a hysbysu'r cyhoedd a threfnu casglu sbwriel yn rheolaidd  (problem barhaus).

*Dywedodd HP y dylem fod yn falch o weld pobl yn dychwelyd ac roedd hyn yn dda i'r economi ac iechyd ond yn cytuno â PR y dylent fod yn parchu'r hyn sydd gennym.*

*Roedd EJW wedi darllen rhai o ddatganiadau gweithgaredd y Strategaeth Hamdden a nododd y dylid sôn o bosibl am falwnau a llusernau. Roedd yn bosibl i sefydliadau fel yr awdurdodau lleol, y PC, neu'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol eu hatal. Yr oedd yn fwy anos i dirfeddianwyr lleol, a gall y rhain deithio milltiroedd lawer ac yn amlwg roedd y rhain yn niweidiol neu hyd yn oed yn beryglus i adeiladau a stoc felly dylid peidio ag annog eu defnydd a gwneud hynny'n ffurfiol.*

Dywedodd PR fod EJW wedi gwneud pwynt da a byddai'n ystyried hyn a hefyd am roi rhywbeth tebyg yng Nghanllawiau Digwyddiadau'r PC. Cawsant geisiadau yn arbennig ynghylch Yr Wyddfa a wrthodir bob amser o ystyried y potensial ar gyfer tanau neu berygl  i'r cyhoedd, adeiladau, bywyd gwyllt a stoc.

*Dywedodd GD ei bod wedi gweld hyn y bore hwnnw gyda balŵn yn dod i mewn o'r môr ac yn glanio yng nghanol buches o wartheg a oedd yn chwilfrydig - ceisiodd un llo ei fwyta a allai fod wedi bod yn angheuol oni bai ei bod wedi'i symud ganddi. Felly, roeddent yn broblem.*

*HP yn argymell ein bod yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i argymell cwtogi eu defnydd mewn rhyw ffordd yng nghefn gwlad.*

Byddai PR yn trafod hyn gyda Chadeirydd y FfMLl y Gogledd ac yn drafftio rhywbeth.

**Cytunwyd**

*Soniodd HP, o dan* ***Cerdded Cwn,*** *y gallai fod angen aileirio'r mater stoc i gynnwys rheoli stoc yn ogystal ag adar sy'n nythu ar y ddaear.*

*Cyfeiriodd ER at y diffiniad o CGaHT. Wedi'i ddisgrifio fel rhai 'cwbl hygyrch' i'r cyhoedd ac yn bosibl y gallai fod angen newid hyn. A  hefyd  yn defnyddio  'Cader Idris yn lle Cadair Idris.*

*Cytunodd HP y gallai hynny fod yn ddryslyd i'r cyhoedd ac awgrymodd newid bach i'r geiriad mewn perthynas â thir mynediad CGaHT.*

*Dywedodd ER y byddai'n hoffi gweld Pwrpas y PC yn cael ei symud o gwmpas fel mai'r un olaf, sy'n cyfeirio at y cymunedau oedd yn gyntaf ac nid yn olaf.*

Dywedodd PR ei bod yn bwysig nodi nad oedd pwrpasau a dyletswyddau'r PC mewn unrhyw drefn benodol nac wedi eu blaenoriaethu o ran trefn  a bod gan bob un ohonynt statws cyfartal. Cydnabu nad oedd y trydydd yn ddyletswydd statudol fel y cyfryw, ond dyma’r confensiwn a ddefnyddiwyd gan y PC ac a nodwyd ym mhob un o bolisïau a dogfennau'r PC. *Er nad yw  o fewn cylch gorchwyl y FfMLL, byddai'n holi.*

*Ychwanegodd HP nad oedd y datganiad diwethaf yn ddyletswydd statudol pan ddylai fod mewn gwirionedd, a dylai'r Awdurdod edrych ar hyn pan oedd y cymunedau lleol yn rhan mor bwysig o'r PC.*

*Dywedodd JPR ei fod wedi sôn am hyn o'r blaen ac y byddai'n falch o gael mwy o gefnogaeth.*

Diolchodd PR i HP, EJW ac ER a byddai'n nodi eu priod arsylwadau.

## 9. Eitemau Agenda a Argymhellir ar gyfer y cyfarfod nesaf

a) Diweddariad ar yr awyr dywyll
b) Strategaeth Hamdden
c) Diweddariad Is-grŵp CGHT – byddai PR yn holi Wyn Williams yng Ngwynedd ynglŷn â'r cam nesaf yn y broses hon gan mai fersiwn cyn-ddrafft oedd hwn yn y bôn.
d) Y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gwasanaeth Wardeiniaid (DPJ) am eu gweithgareddau ar ôl Covid.

## 10 Unrhyw fusnes arall

i) Dywedodd PR wrth yr aelodau fod CNC wedi cyflwyno eu hadroddiad i'r Gweinidog, a dywedwyd wrth yr aelodau y byddai hyn ar gael i'r cyhoedd rywbryd tua diwedd mis Gorffennaf / dechrau Awst. Bydd hon yn ddogfen bwysig a allai lywio pa ddarpariaethau a mecanweithiau mynediad fydd yna yn y dyfodol yng Nghymru.

ii) PR, drwy'r Cadeirydd, -  gan fod DPJ yn bresennol, roedd am ddiolch i'r Gwasanaeth Warden am eu dycnwch a'u gwaith parhaus ar ôl y cyfnod clo – roedd hyn wedi bod yn anodd i bawb, ac roeddent wedi ysgwyddo'r baich ar lawr gwlad yn ddyddiol.

Cefnogodd HP y farn honno a mynegodd ei ddiolch hefyd.

iii)

Dysynni. Dywedodd PR wrth yr aelodau ei bod yn bosibl i'r marc dŵr uchel cymedrig ar y Dysunni gael ei symud yn is i lawr yr afon gan OS ac os felly byddai'r rhan honno o ddŵr wedyn yn dod yn 'ddŵr mewndirol' yn ddiofyn yn  hytrach na  dŵr aberol llanw. Roedd wedi bod mewn trafodaethau gyda'r gwahanol  randdeiliaid gan gynnwys tirfeddianwyr a defnyddwyr i achub y blaen ar unrhyw faterion a chael canlyniad cadarnhaol i hyn. Roedd wedi argymell gwell dealltwriaeth rhwng partïon i sicrhau datrysiad gweithio synhwyrol gan gynnwys cod ymddygiad. Roedd yn hyderus y gallwn gael ateb ffafriol a byddai'n diweddaru'r aelodau pan fyddai pethau’n dod yn gliriach.

Roedd hefyd yn bwysig bod CNC yn dod yn fwy actif ar y safle hwn gan fod problemau o ran tresmasu, potsio a saethu allan o'r tymor o fewn SoDdGA pwysig. Felly, byddai negeseuon yn ymwneud â'r SoDdGA hefyd yn cael eu cynnwys.

Roedd hefyd yn bosibl y bydd newidiadau deddfwriaethol yn y dyfodol a allai hefyd effeithio ar eu syniadau ar fynediad i ddŵr mewndirol yn gyffredinol.

iv) Soniodd ALl fod ras 10k y Tri Chopa bellach wedi'i chanslo oherwydd y cyfyngiadau C19 presennol. Mae'r ras Achub Mynydd o amgylch llyn Traws yn mynd yn ei blaen.

v) Soniodd AH fod problem yn datblygu yn y maes carafannau yn Llwyngwril er mwyn caniatáu mynediad i'r cyhoedd ar y traeth. Mae rhwystrau ar draws yr Hawl Tramwy Cyhoeddus.

Dywedodd GLE (CG) mai ei ddealltwriaeth ef oedd bod rhywfaint o hanes i hyn fel gwersyll cyn-filwrol ond yn ôl y cofnod priffyrdd (rhestr o strydoedd) mae yna lwybrffordd (UCR) drwy'r safle hwnnw ac roedd yr Adran Priffyrdd yn ymchwilio i hyn.

## 11. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – 14 Medi 2021

**Medi 14eg** mewn lleoliad penodol neu dros Zoom. Heb ei gadarnhau eto y naill ffordd na'r llall oherwydd y cyfyngiadau Covid sy'n bodoli.

Diolchodd HP i'r holl aelodau a swyddogion am eu presenoldeb a'u cyfraniadau heno.